**Ystyriaethau eraill sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch**

Yn aml yn ystod cyfnodau o newid chwim, ac yn ogystal â nodi, asesu a lliniaru risg fel uchod, mae'n bosib colli golwg ar rai o'r materion sylfaenol. I helpu cydweithwyr, cafodd aide-memoire syml ei lunio i rai rolau a'r ystyriaethau craidd sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch:

| **IECHYD, DIOGELWCH, AMGYLCHEDD** | |
|---|---|
| **Swyddogaethau/Pobl** Nodi rhywun/rhywrai'n: - | |
| **Swyddog Iechyd a Diogelwch / Cydlynydd** | Bydd yn Hyrwyddwr dros negeseuon a gwybodaeth ynghylch iechyd, diogelwch a rheolaeth amgylcheddol. Er enghraifft, derbyn a chyfathrebu perthnasol gwybodaeth am iechyd a diogelwch *(lle bo'n briodol, caiff y person dan sylw ei fentora wedyn a'i hyfforddi mewn Iechyd a Diogelwch)*.<br>*Os nad yw'n glir pwy fydd yn cyflawni'r rôl yn y pen draw, dylid nodi pwynt cyswllt a fydd yn cysylltu â'r cydlynwyr iechyd a diogelwch presennol* (o adeiniau/adrannau ymgorfforedig) a chyfathrebu â staff canolog Iechyd a Diogelwch. |
| **Hyfforddiant a Gwybodaeth sy'n Orfodol** | Gallu darparu sesiynau cynefino lleol i staff newydd.<br>Sicrhau bod rheolwyr llinell newydd yn ymwybodol o ofynion hyfforddi gorfodol y staff. |
| **Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau** | Derbyn a phrosesu Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau, a sicrhau bod copi'n cael ei anfon a/neu y rhoddir hysbysiad ar unwaith o ddigwyddiad difrifol i Iechyd a Diogelwch. |
| **Cyswllt Hygyrchedd** | Rhoi cefnogaeth a gwybodaeth benodol ynglŷn â hygyrchedd i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr (*mae hynny/gall hynny fod yn ychwanegol at Gyswllt Anabledd Myfyrwyr yr Ysgol gan ei fod yn ymwneud yn fwy â'r amgylchedd ffisegol a chefnogaeth â diogelwch i alluogi'r myfyrwyr i gyfranogi'n llawn*). |
| **Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau** | Goruchwylio/sicrhau bod Trwyddedau Gyrwyr yn cael eu gwirio i'r holl staff sy'n gweithredu cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol a cherbydau a logir gan y Brifysgol.<br>BYSIAU MINI: goruchwylio llogi Bysiau Mini, Hyfforddiant MIDAS a defnyddio Trwyddedau Bysiau Bach.<br>Os ydych yn gweithredu cerbydau y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt/ar brydles, penodwch un person i oruchwylio treth cerbydau, profion MOT, Gwasanaethu ac Yswiriant. |
| **Asesydd/Aseswyr Cyfarpar Sgrin Arddangos** | Goruchwylio perfformiad-cydymffurfiad o ran Hyfforddiant Defnyddwyr Cyfrifiaduron. Mae hynny/gall hynny fod yn ychwanegol at Aseswyr Cyfarpar Sgrin Arddangos lleol (dyma Ddangosydd Perfformiad Allweddol i'r sefydliad a'r Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol). |
| **Hyrwyddwr Amgylcheddol*** | Gweithredu fel cyswllt i faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd y Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| **Y Tu Allan i Oriau Digwyddiadau a Chysylltiadau** | Manylion cyswllt/cysylltiadau allweddol i ddigwyddiadau ac argyfyngau y tu allan i oriau. Rhannwch gysylltiadau allweddol adeiladau gydag Uned Ddiogelwch y Brifysgol. |
| **Teithio Dramor*** | Adolygu'r rhestr o weinyddwyr/rheolwyr sy'n derbyn hysbysiadau yswiriant teithio tramor: https://www.bangor.ac.uk/hss/inflink/TravelInsurance.php.cy<br>Caiff yr amserlen ei diweddaru maes o law i adlewyrchu Gwasanaethau Proffesiynol/Colegau newydd.<br>Rhowch wybod i: iechydadiogelwch@bangor.ac.uk am unrhyw newidiadau. |
| **Absenoldeb oherwydd Salwch Ymysg y Staff** | Enwebwch un cyswllt neu lu o gysylltiadau i dderbyn Nodiadau Ffitrwydd/Hunan-ardystiadau (Nodiadau Salwch) i'r rheolwr llinell eu mewnbynnu ar iTrent. |
| **Lleoliadau Astudio*** | Sicrhau bod trefniadau addas ar waith i gofnodi a hwyluso Lleoliadau Myfyrwyr (profiad gwaith/dysgu yn y gweithle), gan gynnwys gwiriadau cyn lleoliadau yn unol â'r Weithdrefn Academaidd Dysgu ar Leoliad: www.bangor.ac.uk/regulations/codes/code07.php.cy. |
| **Gwaredu Gwastraff Cemegol, Biolegol a Materol (gan gynnwys Meinweoedd Dynol, Cyfarpar Gwastraff Trydanol ac Electronig WEE)*** | Sicrhau y caiff rhywrai eu henwebu i gydlynu/hwyluso gwaredu Gwastraff Peryglus (cemegol, biolegol, meinwedoedd dynol, Gwastraff Technoleg Gwybodaeth/Cyfarpar Trydanol ac Electronig) yn ddiogel a chadw cofnodion. |
| **Rhagflaenwyr (cyffuriau, cemegol, ffrwydron) a Deunyddiau Hysbysadwy eraill*** | Sicrhau, lle bo'n briodol, y caiff rhywun ei enwebu i asesu, hysbysu a chofnodi pob defnydd ar ragflaenwyr a deunyddiau ffrwydrol statudol hysbysadwy a rheoledig. Sicrhau bod eich Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol yn cydymffurfio â'r meintiau awdurdodedig a'r gofynion sydd o ran cadw cofnodion. |
| **Cyfarpar Arbenigol*** | Sicrhau bod gwaith cynnal a chadw/gwasanaethu/gwiriadau interim (e.e. dyfeisiau diogelwch critigol) ar gyfarpar arbenigol yn parhau, e.e. Ffyrnau Aerglos, Allgyrchyddion, Cabinetau Diogelwch Biolegol, cyd-gloeon sy'n hanfodol i Ddiogelwch, hidlyddion HEPA ac Echdynnu. |
| **DOGFENNAU:** | |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Risg Cyffredinol Iechyd a Diogelwch:**<br><br>Mae'r ddogfen hon yn crynhoi mesurau perfformiad a bennir gan ofynion deddfwriaethol a gofynion y Brifysgol | Bydd eich Coleg/Cyfarwyddiaeth wedi newid, ac mae'n bosib y bydd gweithgareddau a risgiau cwbl newydd, felly bydd angen diweddaru'r Asesiad Risg Cyffredinol.<br><br>Rydym yn argymell eich bod yn gofyn i aelod o'r tîm gysylltu â'r Staff Iechyd a Diogelwch canolog a chynnal adolygiad cychwynnol i geisio nodi bylchau amlwg, gwendidau a newidiadau sylfaenol yn y weithdrefn, a'r meysydd lle mae angen gweithredu ar unwaith. |
| **Polisi a Gweithdrefnau sy'n ymwneud ag Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd** | Adolygu'r hyn sydd ar waith a nodi'r hyn sy'n 'gweithio' ac adlewyrchu System Reoli Iechyd a Diogelwch y Brifysgol o ran cynllunio-gwneud-gwirio-gweithredu. Ceisio cefnogaeth gan y Tîm Iechyd a Diogelwch canolog lle bo angen. |
| **Cyfathrebu ac Ymgynghori** | Yn aml, mae rhai agweddau ar gyfathrebu'n pallu mewn newid sefydliadol – nid yw'n syndod, gan fod cynifer o bethau'n digwydd. Felly, mae'n hollbwysig cyfleu rhai negeseuon iechyd, diogelwch ac amgylcheddol sylfaenol, megis pwy i gysylltu â nhw yn y lle cyntaf yn y Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol.<br><br>Yn y tymor byr byddai'n fuddiol rhoi gwybod i'r staff bod y trefniadau iechyd a diogelwch blaenorol yn parhau ac os yw'r personél wedi newid, i gysylltu â'r arweinydd Iechyd a a Diogelwch yn y lle cyntaf. |

**Rolau/swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd*:**

- **Ymbelydredd:** Dylid asesu newidiadau i weithgareddau, rolau neu gyfrifoldebau o ran/ar gyfer defnyddio ymbelydredd a rheoli gwastraff.
- **Trwyddedau amgylcheddol a thrwyddedau tebyg:** Caiff y rhain eu hailasesu i gadarnhau'r manylion cyswllt a'r trefniadau lleol.
- **Addasu Genynnol:** I'w asesu ar wahân (ni ragwelir y bydd effaith sylweddol).
- **Ymarferion Tân / Diogelwch:** Caiff hynny ei asesu ar ôl ad-drefnu. Dylai'r swyddogaethau a'r gweithgareddau presennol barhau i sicrhau bod Ymarferion Tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi bob Semester.
- **Diogelwch Trydanol:** Bydd angen creu rhestr o'r holl gyfarpar trydanol sydd o fewn strwythurau newydd y Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol a datblygu rhestr brawf a/neu archwilio ddiwygiedig.
- **Cymorth Cyntaf:** Darparu a dosbarthu nifer digonol o Swyddogion Cymorth Cyntaf ledled y swyddogaethau a'r gweithgareddau.

* Lle bo'n berthnasol